CONTENTS

Cyflwyniad	(i)-(iv)
Ail-lunio Cyllidebau Arian Cyfyngedig	(v)
Crynodeb o'r Gyllideb	(vi)
Gwybodaeth Treth y Cyngor	(vii)
Disgrifiad o Godau a Phenawdau	(viii)-(xi)
Cyllidebau Manwl	
Amgylchedd a Thechnegol	1
Cynllunio a Rheoleiddio	2
Gofal Cymdeithasol	3
Addysg ac Ymyrraeth Gynnar	4
Tai a'r Economi	5
Gwasanaethau Tai	6
Cyllid	7
Llywodraethu a Chwsmeriaid	8
Trwsio a Chynnal	9
Prif Weithredwr	10
Corfforaethol a Chanolog	11
Rheoli Risgiau Allweddol	12 - 16

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM
CYLLIDEB 2019/20

Adroddiad
Pennaeth Cyllid

CEFNDIR

1. Mae'r broses cynllunio cyllideb awdurdodau lleol yn Wrecsam, fel pob man arall, angen barn ar y cychwyn cyntaf ynghylch rhagolygon cyllideb y Cyngor yn seiliedig ar ddangosyddion economaidd cenedlaethol a chyfansymiau cynllunio llywodraeth ar gyfer gwariant awdurdodau lleol.

2. Fe amlinellwyd y broses cynllunio cyllideb a'r amserlen ar gyfer 2019-20 i aelodau mewn adroddiad gwybodaeth ym mis Ebrill 2018. Mewn gweithdy cyllideb i bob aelod ar 23 Mehefin 2018, cafodd yr aelodau wybod am ddiffyg posibl yn y gyllideb o tua £11.7m dros y ddwy flynedd nesaf, ac roedd £3.9m ohono'n ymwneud â blwyddyn ariannol 2019-20 (ar ôl arbedion o £4.6m a nodwyd fel rhan o broses cyllideb 2018-19).

3. Cafodd cynigion ychwanegol ar gyfer arbedion eu llinio yn ystod yr haf ac ymgymerwyd ag ymgynhoriad cyhoeddus yn yr hydref. Defnyddiwyd amrywiol brosesau yn yr ymgynghoriad gan gynnwys arolwg ar-lein, defnyddio cyfryngau cymdeithasol a phresenoldeb wyneb yn wyneb ar stondin yn y farchnad. Cafodd canlyniadau barn 3,350 o bobl a gasglwyd fel rhan o'r drafodaeth Penderfyniadau Anodd eu hystyried gan Aelodau cyn y Nadolig.

4. Mae cynlluniau ariannol tymor canolig y Cyngor wedi cael eu datblygu gan ddefnyddio'r paramedrau canlynol:

   - Gostyngiad tybiedig mewn cyllid grant o 0.1% yn 2019-20 wedi'i ddilyn gan ostyngiad o 0% ar gyfer 2020-21 a 2021-22.

   - Rhagdybiaethau chwyddiant a amcangyfrifir:

     - dyfarniadau tâl cyfartalog o 2.8% ar gyfer 2019-20, 2.5% ar gyfer 2020-21 a ar gyfer 2021-22.
     - cynnydd prisiau cyffredinol o 0% ar gyfer 2019-20 a 2% ar gyfer 2020-21 a 2021-22.

   - Ymrwymiadau hysbys na ellir eu hosgoi

   - Amcangyfrifon cychwynnol o godiadau treth y cyngor o 5.5% ar gyfer 2020-21 a 2021-22.

5. Bydd y cynllun ariannol tymor canolig yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd.

Adolygiad o'r Flwyddyn Gyfredol 2018-19

6. Mae'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol yn gyfyngedig i £232,871,963.

7. Mae'r gyllideb wedi cael ei fonitro a'i reoli'n ofalus yn ystod y flwyddyn yn unol â'r gweithdrefnau a gymeradwywyd gan y Cyngor. Nodwyd nifer o bwysau ar

wasanaethau a chostau cynyddol yn y flwyddyn ariannol a chytunwyd y dylid cymryd camau gan swyddogion i reoli gwariant ac i gadw gwariant gwasanaeth o fewn cyfansymiau'r gyllideb arian parod cyfyngedig a gymeradwywyd.

8. Bydd pob cyllideb yn parhau i gael eu craffu yn ofalus yn unol â'r gweithdrefnau a gytunwyd arnynt a bydd yr alldro gwirioneddol yn cael ei adrodd yn yr haf. Yn unol â rheolau cyllidebu arian parod cyfyngedig, mae'n bosibl cario unrhyw orwario neu danwario drosodd i 2019-20.

Setliad Refeniw Llywodraeth Cymru (LIC)

9. Mae'r dyraniad grant i awdurdodau unigol yn dibynnu ar y fformiwla asesu gwariant safonol (SSA). Ar gyfer 2019-20 nid oedd unrhyw newidiadau sylweddol i'r fformiwla.

10. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fanylion y setliad refeniw terfynol ar gyfer awdurdodau lleol ar 19 Rhagfyr 2018. Rhoddodd y setliad awdurdodau lleol yng Nghymru gynnydd grant o 0.2% ar gyfartaledd (ar ôl ystyried trosglwyddiadau grantiau) a chyfran Wrecsam oedd gostyngiad o 0.1%.

11. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol i gyfyngu neu gapio gofyniad cyllidebol unrhyw awdurdod lleol y mae'n ystyried yn ormodol. Nid oes unrhyw gyhoeddiad wedi'i wneud yn ymwneud â rhagdybiaethau ynghylch lefel gwariant y Cyngor ar gyfer 2019-20. Mae asesiad o wariant safonol y Cyngor sef yr asesiad tybiannol at ddibenion dosbarthu grant y mae'r Cyngor angen i wario ar ei wasanaethau, yn dod i gyfanswm o £242,950,741.

Cyllideb 2019-20

12. Mae'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf fel yr amlinellir yn Nhudalen (vi) wedi cael ei lunio yn unol â'r fframwaith a gytunwyd gan y Cyngor. Mae'r gyllideb yn y flwyddyn bresennol (hy y gyllideb arian parod cyfyngedig a ddiwygiwyd ar gyfer trosglwyddo grantiau i'r Grant Cynnal Refeniw) wedi cael ei addasu ar gyfer y gost o chwyddiant, ymrwymiadau na ellir eu hosgoi ac arbedion.

13. Amcangyfrifir cyfanswm y gwariant refeniw net yn £236,853,291.

14. Mae'n un o ofynion Deddf Llywodraeth Leol 2003 i mi adrodd i aelodau ar gadernid yr amcangyfrifon a wnaed at ddiben cyfrifo'r gofyniad cyllideb net. Dylwn felly dynnu eich sylw at nifer o feysydd risg allweddol yr wyf wedi'u nodi yn y gyllideb a sut y gellir eu rheoli. Amlinellir y rhain yn Dudalennau 12 i 16. Bydd materion sy'n ymwneud â'r risgiau allweddol hyn yn cael eu hadrodd i'r aelodau yn ystod y flwyddyn sydd i ddod yn ôl yr angen fel rhan o fonitro cyllideb a gweithdrefnau rheoli.

Cronfeydd wrth gefn a Balansau

15. Mae awdurdod lleol yn gofyn am lefel darbodus o falansau gweithiol i gynnal llif arian digonol, yn enwedig yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn ariannol cyn derbyn incwm treth y cyngor, ac i ddiwallu gwariant annisgwyl.

16. Nid oes unrhyw gyfraniadau wedi'u cynllunio i'r balansau ar gyfer 2019-20. Fodd bynnag, rwy'n fodlon bod lefel y balansau a'r cronfeydd wrth gefn yn ddigonol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a strategaeth ariannol tymor canolig yr awdurdod.

17. Mae yna ansicrwydd dal i fod ynglŷn ag effaith costau cyflogau a chwyddiant eraill a'r lleihad mewn grantiau penodol ar gyllideb y Cyngor.

18. Mae dadansoddiad o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a balansau allweddol a ragnodwyd ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod isod:

	Balans Gwirioneddol ar 1 Ebrill 2018 £k	**Amcangyfrif o'r Gwirioneddol ar 1 Ebrill 2019 £k**	**Symudiadyn y flwyddyn £k**	**Amcangyfrif o'r Balans ar 31 Mawrth 2020 £k**
Balans Cronfa'r Cyngor	7,018	7,018	0	7,018
Balansau Ysgolion	2,012	164	0	164
Cronfeydd wrth gefn y Gwasanaeth	1,054	665	(351)	314
Cronfeydd Wrth Gefn eraill sydd wedi'u Clustnodi (heb gynnwys cronfeydd grantiau wrth gefn)	15,769	9,967	(2,645)	7,322
Cyfanswm Balansau a Chronfeydd Wrth Gefn	**25,853**	**17,814**	**(2,996)**	**14,818**

19. Mae'r balansau a amcangyfrifir ar 1 Ebrill 2019 yn y tabl uchod yn seiliedig ar yr amcangyfrifon gorau sydd ar gael pan gafodd yr adroddiad ei ysgrifennu. Mae'r symudiad ym malans Cronfa'r Cyngor yn cynnwys y sefyllfa a adroddwyd arni yn y flwyddyn bresennol. Bydd y sefyllfa yr adroddwyd arni yn newid yn dilyn cau cyfrifon 2018-19 a bydd yn cael ei adrodd i'r aelodau ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. O'r symudiad a gynlluniwyd yn ystod blwyddyn 2019-20 ar gronfeydd wrth gefn y gwasanaeth o £351k ni fydd yr un cronfa yn cael ei defnyddio i ariannu gwariant rheolaidd.

20. Yn unol â Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor, bydd cronfeydd wrth gefn eraill a glustnodwyd yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i'w cynnal yn unol â'r cynllun y cytunwyd arno neu ei ddychwelyd i falans Cronfa'r Cyngor ar gyfer dyrannu mwy priodol.

Incwm

Cyllid Grant Llywodraeth Cymru

21. Grant Cynnal Refeniw – Mae cyfran y Fwrdeistref Sirol o'r Grant Cynnal Refeniw terfynol wedi'i osod ar £132,327,762.

22. **Cyfraddau Busnes** – mae cyfraddau busnes puntdal ar gyfer 2019-20 wedi ei osod ar 52.6c yn y £. Cyfran y Fwrdeistref Sirol o incwm ardrethi annomestig cenedlaethol yn 2019-20 yw £42,924,171.

23. Y cyfanswm y bydd y Cyngor yn ei dderbyn mewn grantiau cyffredinol gan Lywodraeth Cymru yw £175,251,933.

Treth y Cyngor

24. Ar ôl ystyried y grantiau cyffredinol a chyfraniad o falansau, bydd y balans net ar gyfer cyfanswm y gwariant o £61,601,358 yn cael ei ariannu gan drethdalwyr y cyngor.

25. Bwriedir codi fel rhan traul arbennig o'r gost i oleuo llwybr troed i'r pedair ardal gymunedol yn y dref (£4.98 ar fand D), cymuned Llangollen Wledig (£16.46 yn band D), Y Waun (£10.81 yn band D) a Glyntraian (£12.75 yn band D).

26. Ar ôl addasu ar gyfer costau arbennig o £119,254 y balans sydd i'w gael fel treuliau cyffredinol gan drethdalwyr y cyngor yw £61,482,104.

27. Cyfrifiad sylfaen treth y cyngor ar gyfer 2019-20 yw 53,421 eiddo sy'n cyfateb i fand D ar ôl caniatáu am:

- ostyngiadau band ar gyfer pobl anabl
- eiddo eithriedig
- gostyngiadau deiliad unigol
- gostyngiadau dwbl ar eiddo gwag
- premiwm ar gyfer eiddo sydd wedi eu dosbarthu fel fod yn wag yn y tymor hir neu ail gartref
- ffactorau i adlewyrchu'r tâl cymharol ar wahanol fandiau
- cyfradd casglu amcangyfrifedig
- cyfraniadau yn lle gan y Weinyddiaeth Amddiffyn

Mae'r sylfaen dreth gyffredinol yn cael ei adeiladu i fyny o'r un cyfrifiadau ar gyfer pob un o'r 34 ardal cymunedol ac mae'r ardaloedd sydd "gyfwerth â band D" i'w cael ar Dudalen (vii).

28. Bydd rhannu balans y gwariant net (£61,482,104) gan y sylfaen dreth o 53,421 yn rhoi tâl o £1,150.90 i gael ei hysgwyddo gan gartref sy'n talu'r gost llawn a lle mae eu cartref wedi'i brisio fel band D. Ar gyfer eiddo band A mae'r gost yn 6 rhan o 9 o'r ffigwr hyd at eiddo band I gyda'r gost yn 21/9 o ffigur band D. Mewn llawer o achosion bydd y ffigurau hyn yn cael eu addasu ar gyfer disgownt anabl ac eraill, heb anghofio budd-dal treth y cyngor wrth gwrs.

29. Mae tudalen (vii) yn nodi'r gyfradd treth y cyngor ar gyfer y trethdalwr band D ar gyfer pob ardal cyngor cymuned ac yn dangos pan fydd praesept awdurdod yr heddlu wedi'i gynnwys yna'r cyfanswm treth y cyngor band D ar gyfartaledd ar gyfer 2019-20 yw £1,480.63.

CASGLIAD

30. Er y bu gostyngiad o 0.1% yn y setliad ariannol ar gyfer 2019-20 mae pob ymdrech wedi'i wneud i flaenoriaethu ysgolion a'r mwyaf diamddiffyn.

31. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r Cyngor fonitro ei gyllideb ac i gymryd camau priodol. Bydd y gyllideb felly yn golygu bod angen monitro a rheolaeth agos yn ystod y flwyddyn a bydd angen adolygu'r sefyllfa ariannol yn barhaus.

32. Yn olaf, hoffwn ddangos fy ngwerthfawrogiad i'r holl Aelodau a Swyddogion am eu cymorth, cydweithrediad a'u gwaith caled i helpu baratoi'r gyllideb hon.

M S OWEN
PENNAETH CYLLID

AIL-LUNIO CYLLIDEBAU ARIAN CYFYNGEDIG

1. Mae'r cyllidebau arian cyfyngedig ar dudalen (vi) wedi cael eu hail-lunio i adlewyrchu cyfanswm cost gwasanaeth i gynnwys costau cynnal.

2. Mae costau cynnal Adrannol wedi cael eu codi'n llawn ar y gwasanaethau maent yn eu cefnogi; mae hyn yn cynnwys elfen sydd wedi ei hadleoli i Wariant Corfforaethol a Chanolog. Adlewyrchir hyn yng ngholofn J ar dudalen (vi) ac o fewn tudalennau'r gyllideb.

3. Gellir nodi o'r dudalen grynodeb (vi) a thudalennau unigol y gyllideb fod y Prif Weithredwr, Cyllid, Llywodraethu a Gwasanaethau i Gwsmeriaid ac Atgyweirio a Chynnal a Chadw i gyd wedi codi tâl ar wasanaethau eraill am eu Cyllidebau Arian Cyfyngedig; mae'r ail-ddyraniad costau yn seiliedig ar fatricsau sydd wedi eu nodi fel y bo'n briodol.

4. Fel rhan o'r Cod, mae'r costau canolog wedi cael eu hadrefnu i:

    - Y Craidd Corfforaethol a Democrataidd (gan gynnwys Cynrychiolaeth Ddemocrataidd a Rheolaeth Gorfforaethol)
    - Costau Heb eu Dosbarthu (gan gynnwys Costau Gwasanaeth Blaenorol a chostau'n gysylltiedig â threfniant rhannu cyfleusterau TG heb ei ddefnyddio)
    - Gwasanaethau Canolog i'r Cyhoedd (gan gynnwys costau casglu Treth y Cyngor, Cofrestru Etholiadol ac ati)
    - Incwm a Gwariant Gweithredol Eraill (gan gynnwys ardollau gan gyrff eraill ac ariannu cyfalaf).

5. Er bod y rhain yn addasiadau sylweddol at ddibenion cyfrifo, mae grym gwario gwaelodol y gwasanaeth yn parhau i fod yn union yr un fath ag y cymeradwywyd gan y Cyngor.

6. Mae'r Cyllidebau Arian Cyfyngedig ar gyfer 2018-19 ar dudalennau unigol y gwasanaethau hynny a effeithiwyd arnynt gan y broses ailstrwythuro rheolwyr i adlewyrchu'r ailddyraniad yng Ngholofn C y grynodeb ar dudalen (vi).

2019/20 Crynodeb o Gyllideb Refeniw

	2018/19 Cyllideb Arian parod cyfyngedig A	Newidiadau Ailstrwythuro Rheolaeth B	2018/19 Cyllideb arian cyfyngedig ar ôl newidiadau Ailstrwythuro Rheolaeth C	Newidiadau Gweithredol LIC D	Chwyddiant Tâl E	Cyffredinol a Chwyddiant Arall F	Ymrwymiadau Anochel G	Arbedion Gwasanaeth H	2019/20 Cyllideb arian parod cyfyngedig I	2019/20 Cyllideb Addasedig J
	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£
Amgylchedd a Chynllunio / Amgylchedd a Thechnegol	33,837,521	(2,288,784)	31,548,737	0	281,117	522,315	0	(123,000)	32,229,169	36,587,382
Cynllunio a Rheoleiddio	0	2,288,784	2,288,784	0	87,151	0	0	(98,000)	2,277,935	2,924,368
Gofal Cymdeithasol I Oedolion / Gofal Cymdeithasol	41,929,245	14,775,670	56,704,915	0	534,111	883,287	787,847	(1,899,000)	57,011,160	63,531,596
Ysgolion	80,718,997	0	80,718,997	343,826	1,879,028	0	1,506,014	(952,000)	83,495,865	83,495,865
Addysg / Addysg ac Ymyrraeth Gynnar	5,611,805	356,476	5,968,281	0	324,833	0	141,583	(384,000)	6,050,697	22,216,963
Gofal Cymdeithasol i Blant	15,132,146	(15,132,146)	0	0	0	0	0	0	0	0
Tai a'r Economi	6,659,181	0	6,659,181	0	241,274	0	0	(824,000)	6,076,455	10,704,202
Cyllid	5,017,432	1,449,551	6,466,983	0	163,153	0	172,000	(330,000)	6,472,136	0
Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid / Llywodraethu a Chwsmeriaid	8,028,360	(4,537,115)	3,491,245	0	91,484	0	0	(34,000)	3,548,729	0
Trwsio a Chynnal	1,904,975	0	1,904,975	0	0	0	250,000	0	2,154,975	0
Prif Weithredwr	0	3,724,594	3,724,594	0	97,933	0	0	(442,000)	3,380,527	0
Cyfanswm Gwariant Net Gwasanaethau	**198,839,662**	**637,030**	**199,476,692**	**343,826**	**3,700,084**	**1,405,602**	**2,857,444**	**(5,086,000)**	**202,697,648**	**219,460,376**
Gwariant Corfforaethol a Chanolog										
Cyffredinol	16,992,488	(637,030)	16,355,458	197,147	6,112	0	368,076	(461,000)	16,465,793	(296,935)
Ardoll Tân	6,654,623	0	6,654,623	0	0	0	361,001	0	7,015,624	7,015,624
Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor	10,385,190	0	10,385,190	0	0	547,677	0	(258,641)	10,674,226	10,674,226
Cyfanswm Gwariant Net	**232,871,963**	**0**	**232,871,963**	**540,973**	**3,706,196**	**1,953,279**	**3,586,521**	**(5,805,641)**	**236,853,291**	**236,853,291**
Ariennir drwy'r:										
Cyllid Llywodraeth Cymru	174,636,390									175,251,933
Incwm Treth y Cyngor	58,235,573									61,601,358
Cyfanswm Incwm	**232,871,963**									**236,853,291**

(vii)

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

GWYBODAETH AM DRETH Y CYNGOR 2019-20

Sylfaen y Dreth	Cymunedol	Costau Cyffredinol CBSW	Costau Arbennig CBSW	Praesept Heddlu G Cymru	Praeseptau Cymunedol	CYFANSWM
496	Abenbury	1,150.90		278.10	25.20	1,454.20
5,720	Acton	1,150.90	4.98	278.10	25.96	1,459.94
591	Bangor Isycoed	1,150.90		278.10	31.30	1,460.30
650	Bronington	1,150.90		278.10	29.23	1,458.23
2,831	Broughton	1,150.90		278.10	50.34	1,479.34
1,945	Brymbo	1,150.90		278.10	51.25	1,480.25
3,795	Caia Park	1,150.90	4.98	278.10	58.24	1,492.22
2,260	Cefn	1,150.90		278.10	67.56	1,496.56
161	Ceiriog Ucha	1,150.90		278.10	12.42	1,441.42
1,672	Chirk	1,150.90	10.81	278.10	67.50	1,507.31
1,711	Coedpoeth	1,150.90		278.10	108.71	1,537.71
223	Erbistock	1,150.90		278.10	5.31	1,434.31
1,421	Esclusham	1,150.90		278.10	65.25	1,494.25
383	Glyntraian	1,150.90	12.75	278.10	49.35	1,491.10
2,640	Gresford	1,150.90		278.10	33.71	1,462.71
3,895	Gwersyllt	1,150.90		278.10	56.28	1,485.28
371	Hanmer	1,150.90		278.10	22.24	1,451.24
843	Holt	1,150.90		278.10	36.77	1,465.77
226	Isycoed	1,150.90		278.10	54.42	1,483.42
865	Llangollen Rural	1,150.90	16.46	278.10	64.84	1,510.30
478	Llansantffraid Glyn Ceiriog	1,150.90		278.10	62.76	1,491.76
1,763	Llay	1,150.90		278.10	42.96	1,471.96
699	Maelor South	1,150.90		278.10	26.04	1,455.04
590	Marchwiel	1,150.90		278.10	54.24	1,483.24
705	Minera	1,150.90		278.10	59.14	1,488.14
4,208	Offa	1,150.90	4.98	278.10	43.96	1,477.94
696	Overton	1,150.90		278.10	74.01	1,503.01
1,127	Pen-y-cae	1,150.90		278.10	62.34	1,491.34
2,757	Rhosddu	1,150.90	4.98	278.10	29.74	1,463.72
3,276	Rhosllanerchrugog	1,150.90		278.10	76.27	1,505.27
1,810	Rossett	1,150.90		278.10	36.08	1,465.08
1,799	Ruabon	1,150.90		278.10	44.47	1,473.47
320	Sesswick	1,150.90		278.10	9.38	1,438.38
494	Willington / Worthenbury	1,150.90		278.10	21.04	1,450.04
53,421	**Cyfanswm / Cyfartaledd**	**1,150.90**	**2.23**	**278.10**	**49.40**	**1,480.63**

SYLWER:Sylfaen y Dreth = Yn gyfwerth â Band "D" ar gyfer unigolyn sy'n talu'r gyfradd lawn o Dreth y Cy

Disgrifiad o'r Codau a'r Penawdau a Ddefnyddiwyd yn Llyfr y Gyllideb

Disgrifiad	Yn Cynnwys
Costau Cyflogeion	
Cyfanswm Cyflogau	Rheolwyr a Gweinyddu Athrawon, Gofalwyr, Glanhawyr ac ati Cyflog Crynswth, Goramser Cyfraniad y Cyflogwr Yswiriant Gwladol a Phensiwn
Costau Eraill Cyflogeion	Costau Hyfforddiant, Treuliau Cyfraniadau, Hysbysebu Niwed ac ati
Costau Eiddo	
Trwsio a Chynnal	Trwsio a Chynnal Adeiladau Cynnal Tiroedd
Trwsio Tai	Paentio ac ati
Costau Ynni	Trydan, Nwy, Olew, Tanwydd ac ati
Rhent a Threthi	Rhent, Trethi Annomestig a Threth y Cyngor
Gwasanaethau Dŵr	Trethi Dŵr, Carthffosiaeth ac ati
Gosodion a Ffitiadau	Prynu, Rhentu a Phrydlesu
Gwariant Gweithredol	Costau Eiddo - Diogelwch Cyffredinol ac ati
Gwariant ar Lanhau	Glanhau Adeiladau a Ffenestri Contractwyr Glanhau Cyflenwadau - Cemigion ac ati Symud Gwastraff, Llogi Sgipiau Rheoli Plâu
Costau Cludiant	
Costau Uniongyrchol Cerbydau	Costau Prynu neu Brydlesu Cerbydau / Cyfarpar Trwsio a Chynnal Cerbydau / Cyfarpar Llogi ar Gontract Profion MOT, Trwyddedau, Rhannau Costau Cynnal - Petrol, Olew ac ati
Codi am Gludiant	Codi am Gerbydau / Cyfarpar
Llogi a Phrydlesi Gweithredol	Costau Llogi / Prydlesu Taliadau-dros-ben
Lwfansau Car	Costau Defnyddiwr Achlysurol
Yswiriant Cludiant	Yswiriant Cludiant ac Thâl Cychwynnol Yswiriant

Disgrifiad o'r Codau a'r Penawdau a Ddefnyddiwyd yn Llyfr y Gyllideb

Cyflenwadau a Gwasanaethau

Offer a Deunyddiau	Prynu a Phrydlesu Offer Trwsio a Chynnal Offer Deunyddiau Cyffredinol gan gynnwys Cyflenwadau Cymorth Addurniadau Blodeuol ac Eitemau Eraill Arbenigol yn dibynnu ar y gwasanaeth
Gwariant Arlwyo	Cyflenwadau Arlwyo, Gwasanaethau a Bwydydd Cyffredinol Cyflenwadau Bar Cyflenwadau Gwerthu
Treuliau Dillad / Golchi Dillad	Dillad Amddiffynnol a Lifreion Golchi Dillad
Treuliau Swyddfa	Argraffu Llungopïo Papurach - Cyffredinol ac Arbenigol Llyfrau, Cyfnodolion, Cyhoeddiadau Cyffredinol ac ati Microffilm / Microfiche
Ffïoedd a Gwasanaethau Proffesiynol	Ffïoedd Ymgynghoriaeth Ffïoedd Cyfreithiol Ffïoedd Trwyddedau Ffïoedd Proffesiynol Eraill Ffïoedd Arholiadau / Cyrsiau Ffïoedd Llogi Cyffredinol
Cyfathrebu a Chyfrifiadura	Costau Postio Costau Ffôn - Canolog, Symudol, Galwr ac ati Prynu / Cynnal / Codi am Gyfrifiaduron Costau Meddalwedd / Caledwedd Papurach / Nwyddau Traul Cyfrifiadurol Costau Teledu Cylch Cyfyng
Treuliau a Chynhaliaeth	Cynhaliaeth Gyffredinol Treuliau Teithio Codi am Gardiau Credyd Ffïoedd Gwarchod Plant
Grantiau a Thanysgrifiadau	Grantiau a Thanysgrifiadau
Darpariaethau Ariannol	Darpariaethau - Dyledion Drwg, Colledion ac ati
Amrywiol	Costau Yswiriant Costau Hysbysebu / Marchnata Costau Lletygarwch Codiannau Banc, Ffïoedd Archwilio a Chasglu Arian

Disgrifiad o'r Codau a'r Penawdau a Ddefnyddiwyd yn Llyfr y Gyllideb

Taliadau Trydydd Parti	
Costau Awdurdodau Eraill	Awdurdodau Eraill, Cynghorau Cymuned Cytundebau ar y Cyd
Costau Iechyd	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Cyrff a Mudiadau Gwirfoddol	Taliadau dan Gytundebau Lefel Gwasanaethau
Contractwyr Preifat	Taliadau dan Gontractau
Asiantaethau Eraill	Asiantaethau Staff Asiantaethau Eraill Ffïoedd Peirianwyr
Taliadau Trosglwyddo	
Lwfansau Rhent	Taliadau Budd-dal ac Ysgoloriaethau
Budd-dal Treth y Cyngor	Lwfansau Rhent Budd-dal Tai
Gwasanaethau Cymorth	
Gwasanaethau Cymorth Canolog	Codi am Wasanaethau Cyllid / ICT Codi am Adnoddau Dynol Codi am Wasanaethau Cyfreithiol Codi am Ddylunio Eiddo Codi am Swyddfeydd Cyhoeddus Codi am Hyfforddi Canolog a Chyfieithu Codi am Ddiogelwch Cyffredinol, Yswiriant Codi am Waith Trwsio a Chynnal
Gwasanaethau Cymorth Adrannol	Codi am Weinyddu Adrannol
Codi y Tu Allan i'r Gronfa Gyffredinol All	Codi o'r Gronfa Gyffredinol Allanol
Cyllid Cyfalaf	
Taliad Cyllid Cyfalaf	Dibrisiant, Amhariad
Taliadau Dyledion	Taliadau Llog Isafswm Darpariaeth Refeniw
Premiymau	Premiymau ar Ad-drefnu Dyledion

Disgrifiad o'r Codau a'r Penawdau a Ddefnyddiwyd yn Llyfr y Gyllideb

Incwm

Grantiau'r Llywodraeth	Grantiau'r Llywodraeth Ganolog Grantiau Llywodraeth Cymru Grantiau Ewropeaidd
Grantiau a Chyfraniadau Eraill	Grantiau Eraill Cyfraniadau Eraill Codi ar Gyrff Allanol, Gwasanaethau Eraill Cyhoeddus, Adrannol ac ati
Derbyniadau gan Gwsmeriaid	Gwerthiannau Cyffredinol Gwerthiannau Arlwyo / Bar Comisiwn Incwm Amrywiol
Ffïoedd a Thaliadau	Ffïoedd Cyffredinol Cosbau a Chostau Llys Taliadau Mynediad ac ati Incwm Meysydd Parcio Taliadau Aelodaeth Taliadau Gofal Cartref / Gofal Dydd Ffïoedd Amlosgi
Rhent a Gosod Eiddo	Rhent Hawliau Hela Llogi Cyfleusterau Llogi Storfeydd
Llog a Dderbyniwyd	Llog a Dderbyniwyd
Codi Tâl	Adfer Cymorth Canolog Adfer Cymorth Adrannol Adfer Cymorth Ysgolion
Gwariant Corfforaethol a Chanolog	Codi am Graidd Corfforaethol a Democrataidd Costau Annosbarthedig Gwasanaethau Canolog i'r Cyhoedd Cyngor i'r Aelodau

Amgylchedd a Thechnegol

CYLLIDEB GRYNO | **CYLLIDEB ARIAN CYFYNGEDIG** | **AILDREFNU**

GWASANAETH DISGRIFIAD	2018/2019	2019/2020	2019/2020
Cost Glir fesul Gwasanaeth			
	£	£	£
MYNWENTYDD AC AMLOSGFEYDD	-759,361	-671,058	-510,323
CASGLU A GWAREDU GWASTRAFF	20,000,257	20,238,371	23,495,289
GLANHAU ARALL	1,119,747	1,450,668	1,771,597
PARCIAU A MANNAU AGORED	2,244,780	2,279,410	2,505,668
CLUDIANT INTEGREDIG	4,898,024	4,891,379	1,941,574
MEYSYDD PARCIO A PHARCIO DAD-DROSEDDOLEDIG	-558,190	-551,862	-466,310
DIOGELWCH AR Y FFYRDD A HEBRYNGWYR CROESI	114,321	125,373	236,438
CYNNAL PRIFFYRDD	3,984,669	4,093,225	7,613,449
CEFNOGAETH ADRANNOL	504,490	373,663	0
CYFANSWM Y GYLLIDEB	31,548,737	32,229,169	36,587,382

Dadansoddiad yn ôl Gwariant ac Incwm

	£	£	£
GWARIANT			
COSTAU CYFLOGEION	11,041,678	11,472,532	11,974,108
COSTAU EIDDO	1,617,476	1,695,224	1,695,224
COSTAU CLUDIANT	7,850,492	7,856,492	7,856,492
CYFLENWADAU A GWASANAETHAU	1,154,503	1,121,472	1,121,472
TALIADAU TRYDYDD PARTI	23,161,987	23,545,004	23,545,004
GWASANAETHAU CEFNOGI	0	0	3,905,272
CODI CYFALAF	352,109	352,109	6,753,697
CYFANSWM GWARIANT	45,178,245	46,042,833	56,851,269
INCWM			
GRANTIAU A CHYFRANIADAU ERAILL	-9,968,694	-10,132,850	-10,132,850
FFÏOEDD, TALIADAU AC INCWM ARALL	-3,471,841	-3,491,841	-3,491,841
CODI AR	-188,973	-188,973	-6,639,196
CYFANSWM INCWM	-13,629,508	-13,813,664	-20,263,887
CYFANSWM Y GYLLIDEB	31,548,737	32,229,169	36,587,382

Cynllunio a Rheoleiddio

CYLLIDEB GRYNO | **CYLLIDEB ARIAN CYFYNGEDIG** | **AILDREFNU**

GWASANAETH DISGRIFIAD	2018/2019	2019/2020	2019/2020
Cost Glir fesul Gwasanaeth			
	£	£	£
RHEOLI DATBLYGU A PHOLISI CYNLLUNIO	353,984	367,934	976,867
CEFNOGAETH ADRANNOL	445,144	449,478	0
CYNLLUNIO AT ARGYFWNG	123,000	123,000	0
PRIDIANNAU TIR LLEOL	-66,032	-64,364	0
BWYD / IECHYD A DIOGELWCH	508,345	500,426	686,251
GWARCHOD YR AMGYLCHEDD	625,465	620,334	809,084
TRWYDDEDU / SAFONAU MASNACHU	298,878	281,127	452,166
CYFANSWM Y GYLLIDEB	2,288,784	2,277,935	2,924,368

Dadansoddiad yn ôl Gwariant ac Incwm

	£	£	£
GWARIANT			
COSTAU CYFLOGEION	3,463,595	3,503,850	3,624,125
COSTAU EIDDO	98,795	28,295	28,295
COSTAU CLUDIANT	95,587	95,629	95,629
CYFLENWADAU A GWASANAETHAU	161,268	174,268	174,268
TALIADAU TRYDYDD PARTI	215,428	215,428	215,428
GWASANAETHAU CEFNOGI	17,671	18,025	1,176,944
CODI CYFALAF	0	0	75,711
CYFANSWM GWARIANT	4,052,344	4,035,495	5,390,400
INCWM			
GRANTIAU A CHYFRANIADAU ERAILL	-194,757	-187,757	-543,163
FFÏOEDD, TALIADAU AC INCWM ARALL	-1,568,803	-1,569,803	-1,569,803
CODI AR	0	0	-353,066
CYFANSWM INCWM	-1,763,560	-1,757,560	-2,466,032
CYFANSWM Y GYLLIDEB	2,288,784	2,277,935	2,924,368

Gofal Cymdeithasol

CYLLIDEB GRYNO	CYLLIDEB ARIAN CYFYNGEDIG		AILDREFNU
GWASANAETH DISGRIFIAD	**2018/2019**	**2019/2020**	**2019/2020**

Cost Glir fesul Gwasanaeth

	£	£	£
POBL HŶN	18,991,466	19,819,040	22,454,927
ANABLEDD CORFFOROL AC AMHARIAD SYNHWYROL	5,418,068	5,128,535	4,907,265
GWASANAETHAU CYFFREDINOL	-1,245,909	-1,778,978	-396,632
AFIECHYD Y MEDDWL	2,954,612	3,039,485	2,855,788
ANABLEDDAU DYSGU	14,178,696	13,599,832	16,292,099
	14,775,670	15,536,148	17,411,182
UWCH-REOLWYR / GWASANAETHAU CEFNOGI	1,632,312	1,667,098	6,967
CYFANSWM Y GYLLIDEB	**56,704,915**	**57,011,160**	**63,531,596**

Dadansoddiad yn ôl Gwariant ac Incwm

	£	£	£
GWARIANT			
COSTAU CYFLOGEION	21,743,720	21,975,245	22,961,930
COSTAU EIDDO	236,795	221,109	221,109
COSTAU CLUDIANT	632,527	622,540	622,540
CYFLENWADAU A GWASANAETHAU	1,862,072	1,746,378	1,746,378
TALIADAU TRYDYDD PARTI	39,223,257	40,127,191	40,127,191
TALIADAU TROSGLWYDDO	8,174,883	8,160,790	8,160,790
GWASANAETHAU CEFNOGI	6,533	6,533	13,791,205
CODI CYFALAF	0	0	255,175
CYFANSWM GWARIANT	**71,879,787**	**72,859,786**	**87,886,318**
INCWM			
GRANTIAU A CHYFRANIADAU ERAILL	-7,104,245	-7,728,599	-7,728,599
FFÏOEDD, TALIADAU AC INCWM ARALL	-7,907,477	-7,956,877	-7,956,877
CODI AR	-163,150	-163,150	-8,669,246
CYFANSWM INCWM	**-15,174,872**	**-15,848,626**	**-24,354,722**
CYFANSWM Y GYLLIDEB	**56,704,915**	**57,011,160**	**63,531,596**

Addysg ac Ymyrraeth Gynnar

CYLLIDEB GRYNO **CYLLIDEB ARIAN CYFYNGEDIG AILDREFNU**

GWASANAETH DISGRIFIAD	2018/2019	2019/2020	2019/2020
Cost Glir fesul Gwasanaeth			
	£	£	£
CYLLIDEBAU DIRPRWYEDIG YSGOLION	80,718,997	83,495,865	83,495,865
CYFANSWM AR GYFER YSGOLION	80,718,997	83,495,865	83,495,865
YMYRRAETH A CHYFOETHOGIAD ADDYSGOL	1,841,053	1,856,769	2,572,995
ADDYSG BLYNYDDOEDD CYNNAR	628,787	631,879	713,246
CEFNOGI CYFLAWNIAD	3,498,441	3,562,049	18,930,722
CYFANSWM HEBLAW YSGOLION	5,968,281	6,050,697	22,216,963
CYFANSWM Y GYLLIDEB	86,687,278	89,546,562	105,712,828

Dadansoddiad yn ôl Gwariant ac Incwm

	£	£	£
GWARIANT			
COSTAU CYFLOGEION	86,769,755	90,472,451	91,883,291
COSTAU EIDDO	5,392,048	4,883,430	4,889,505
COSTAU CLUDIANT	263,300	255,559	255,559
CYFLENWADAU A GWASANAETHAU	9,072,713	8,616,077	8,616,077
TALIADAU TRYDYDD PARTI	2,865,901	2,853,901	2,853,901
TALIADAU TROSGLWYDDO	32,733	32,733	32,733
GWASANAETHAU CEFNOGI	1,141,145	1,141,145	13,452,042
CODI CYFALAF	120,000	120,000	5,000,229
CYFANSWM GWARIANT	105,657,595	108,375,296	126,983,337
INCWM			
GRANTIAU A CHYFRANIADAU ERAILL	-14,476,852	-14,476,852	-14,476,852
FFÏOEDD, TALIADAU AC INCWM ARALL	-154,644	-13,061	-13,061
CODI AR	-4,338,821	-4,338,821	-6,780,596
CYFANSWM INCWM	-18,970,317	-18,828,734	-21,270,509
CYFANSWM Y GYLLIDEB	86,687,278	89,546,562	105,712,828

Tai a'r Economi

CYLLIDEB GRYNO **CYLLIDEB ARIAN CYFYNGEDIG** **AILDREFNU**

Cost Glir fesul Gwasanaeth

GWASANAETH DISGRIFIAD	2018/2019	2019/2020	2019/2020
	£	£	£
BUSNES A BUDDSODDIAD	914,774	931,084	2,054,996
STRATEGAETH A DATBLYGIAD	626,636	521,028	800,588
TREFTADAETH AC ARCHIFAU	597,551	551,458	983,131
ASEDAU STRATEGOL	443,819	202,540	708,007
RHEOLI A DYLUNIO CYFLEUSTERAU	708,218	696,951	411,706
ARLWYO GWASANAETH	393,268	415,999	635,549
CEFNOGAETH ADRANNOL	313,070	309,082	0
GWASANAETH LLYFRGELL	1,449,719	1,317,009	2,177,402
ADFER FFISEGOL A MARCHNATA	208,786	209,044	1,011,715
BUDD-DAL TAI	-566,617	-566,617	140,305
TAI SECTOR PREIFAT	56,679	64,821	120,704
DEWISIADAU TAI	1,513,278	1,424,056	1,660,099
CYFANSWM Y GYLLIDEB	**6,659,181**	**6,076,455**	**10,704,202**

Dadansoddiad yn ôl Gwariant ac Incwm

	£	£	£
GWARIANT			
COSTAU CYFLOGEION	9,737,484	10,155,338	10,584,673
COSTAU EIDDO	3,775,720	3,415,131	3,415,131
COSTAU CLUDIANT	92,767	99,767	99,767
CYFLENWADAU A GWASANAETHAU	3,578,025	3,211,554	3,211,554
TALIADAU TRYDYDD PARTI	2,636,924	2,961,823	2,961,823
TALIADAU TROSGLWYDDO	37,851,134	37,667,232	37,667,232
GWASANAETHAU CEFNOGI	214,458	208,660	6,614,397
CODI CYFALAF	0	0	2,883,234
CYFANSWM GWARIANT	**57,886,512**	**57,719,505**	**67,437,811**
INCWM			
GRANTIAU A CHYFRANIADAU ERAILL	-43,261,344	-43,573,597	-43,573,597
FFÏOEDD, TALIADAU AC INCWM ARALL	-5,240,152	-5,329,808	-5,329,808
CODI AR	-2,725,835	-2,739,645	-7,830,204
CYFANSWM INCWM	**-51,227,331**	**-51,643,050**	**-56,733,609**
CYFANSWM Y GYLLIDEB	**6,659,181**	**6,076,455**	**10,704,202**

DISGRIFIAD	2018/19	2019/20
CRYNODEB O'R CYFRIF REFENIW TAI		
	£	£
INCWM		
RHENTI ANHEDDAU	49,325,000	52,036,000
RHENTI ADEILADAU ERAILL	1,017,000	999,000
TALIADAU AM WASANAETHAU A CHYFLEUSTERAU	400,000	400,000
INCWM O'R BWYD ANIFEILIAID PV HEULOL YN GYFRADD	1,500,000	1,500,000
AFFORDABLE HOUSING GRANT	97,000	167,000
LLOG	25,000	25,000
CYFANSWM INCWM	52,364,000	55,127,000
GWARIANT		
COSTAU GORUCHWYLIO A RHEOLI	5,338,000	6,441,000
TREULIAU ARBENNIG (CYNNAL TIROEDD AC ATI)	620,000	632,000
TAI GWARCHOD - COSTAU LANDLORD	620,000	634,000
TRWSIO A CHYNNAL	17,868,000	19,229,000
TALIADAU CYFALAF	17,674,000	19,300,000
DARPARIAETH AR GYFER DYLEDION DRWG AC AMHEUS	764,000	1,073,000
CYFRANIAD AT Y RHAGLEN GYFALAF (CERA)	9,490,000	7,815,000
CYFANSWM GWARIANT	52,374,000	55,124,000
GWARGED / -DIFFYG CLIR AM Y FLWYDD	10,000	-3,000
GWEDDILL A DDYGWYD YMLAEN	5,030,236	5,020,236
GWEDDILL I'W DDWYN YMLAEN	5,020,236	5,023,236

Cyllid

CYLLIDEB GRYNO | **CYLLIDEB ARIAN CYFYNGEDIG** | **AILDREFNU**

Cost Glir fesul Gwasanaeth

GWASANAETH DISGRIFIAD	2018/2019	2019/2020	2019/2020
	£	£	£
CYLLID	3,716,854	3,603,145	0
SYSTEMAU GWYBODAETH	2,750,129	2,868,991	0
CYFANSWM Y GYLLIDEB	**6,466,983**	**6,472,136**	**0**

Dadansoddiad yn ôl Gwariant ac Incwm

	£	£	£
GWARIANT			
COSTAU CYFLOGEION	6,490,088	6,536,232	6,732,720
COSTAU EIDDO	19,820	19,820	19,820
COSTAU CLUDIANT	25,300	23,302	23,302
CYFLENWADAU A GWASANAETHAU	1,917,404	2,006,342	2,006,342
GWASANAETHAU CEFNOGI	60,919	60,919	4,018,885
CODI CYFALAF	0	0	238,985
CYFANSWM GWARIANT	**8,513,531**	**8,646,615**	**13,040,054**
INCWM			
GRANTIAU A CHYFRANIADAU ERAILL	-570,483	-573,483	-573,483
FFÏOEDD, TALIADAU AC INCWM ARALL	-524,106	-624,106	-624,106
CODI AR	-951,959	-976,890	-11,842,465
CYFANSWM INCWM	**-2,046,548**	**-2,174,479**	**-13,040,054**
CYFANSWM Y GYLLIDEB	**6,466,983**	**6,472,136**	**0**

Llywodraethu a Chwsmeriaid

CYLLIDEB GRYNO		CYLLIDEB ARIAN CYFYNGEDIG		AILDREFNU
GWASANAETH	**DISGRIFIAD**	**2018/2019**	**2019/2020**	**2019/2020**
Cost Glir fesul Gwasanaeth				
		£	**£**	**£**
	CYFREITHIOL GWASANAETHAU	**870,348**	**854,863**	**0**
	DEMOCRATAIDD A GWASANAETH COFRESTRU	**617,844**	**631,086**	**0**
	CYFATHREBU A'R CYFRYNGAU CYMDEITHASOL	**2,003,053**	**2,062,780**	**0**
	CYFANSWM Y GYLLIDEB	**3,491,245**	**3,548,729**	**0**

Dadansoddiad yn ôl Gwariant ac Incwm

		£	£	£
	GWARIANT			
	COSTAU CYFLOGEION	**3,622,691**	**3,714,449**	**3,857,553**
	COSTAU EIDDO	**500**	**500**	**500**
	COSTAU CLUDIANT	**8,814**	**8,814**	**8,814**
	CYFLENWADAU A GWASANAETHAU	**685,463**	**685,189**	**685,189**
	GWASANAETHAU CEFNOGI	**0**	**0**	**2,339,885**
	CYFANSWM GWARIANT	**4,317,468**	**4,408,952**	**6,891,941**
	INCWM			
	GRANTIAU A CHYFRANIADAU ERAILL	**-242,413**	**-242,413**	**-242,413**
	FFÏOEDD, TALIADAU AC INCWM ARALL	**-360,939**	**-394,939**	**-394,939**
	CODI AR	**-222,871**	**-222,871**	**-6,254,589**
	CYFANSWM INCWM	**-826,223**	**-860,223**	**-6,891,941**
	CYFANSWM Y GYLLIDEB	**3,491,245**	**3,548,729**	**0**

Trwsio a Chynnal

CYLLIDEB GRYNO | **CYLLIDEB ARIAN CYFYNGEDIG** | **AILDREFNU**

GWASANAETH DISGRIFIAD	2018/2019	2019/2020	2019/2020
Cost Glir fesul Gwasanaeth			
	£	£	£
TRWSIO A CHYNNAL	1,904,975	2,154,975	0
CYFANSWM Y GYLLIDEB	**1,904,975**	**2,154,975**	**0**
Dadansoddiad yn ôl Gwariant ac Incwm			
	£	£	£
GWARIANT			
COSTAU EIDDO	2,021,071	2,271,071	2,271,071
GWASANAETHAU CEFNOGI	69,347	69,347	114,793
CYFANSWM GWARIANT	**2,090,418**	**2,340,418**	**2,385,864**
INCWM			
CODI AR	-185,443	-185,443	-2,385,864
CYFANSWM INCWM	**-185,443**	**-185,443**	**-2,385,864**
CYFANSWM Y GYLLIDEB	**1,904,975**	**2,154,975**	**0**

Prif Weithredwr

CYLLIDEB GRYNO | **CYLLIDEB ARIAN CYFYNGEDIG** | **AILDREFNU**

GWASANAETH DISGRIFIAD	2018/2019	2019/2020	2019/2020
Cost Glir fesul Gwasanaeth			
	£	£	£
	637,030	497,910	0
PERFFORMIAD A GWELLA PARTNERIAETHAU	1,167,926	1,004,759	0
ADNODDAU DYNOL	1,315,204	1,353,176	0
DATBLYGU'R GWEITHLU A HYFFORDDIANT	604,434	524,682	0
CYFANSWM Y GYLLIDEB	3,724,594	3,380,527	0

Dadansoddiad yn ôl Gwariant ac Incwm

	£	£	£
GWARIANT			
COSTAU CYFLOGEION	3,912,403	3,555,581	3,630,424
COSTAU EIDDO	21,877	21,877	21,877
COSTAU CLUDIANT	18,963	16,370	16,370
CYFLENWADAU A GWASANAETHAU	290,354	392,744	392,744
TALIADAU TRYDYDD PARTI	223,150	153,150	153,150
GWASANAETHAU CEFNOGI	0	0	1,406,995
CYFANSWM GWARIANT	4,466,747	4,139,722	5,621,560
INCWM			
GRANTIAU A CHYFRANIADAU ERAILL	-635,276	-652,318	-652,318
FFÏOEDD, TALIADAU AC INCWM ARALL	-6,000	-6,000	-6,000
CODI AR	-100,877	-100,877	-4,963,242
CYFANSWM INCWM	-742,153	-759,195	-5,621,560
CYFANSWM Y GYLLIDEB	3,724,594	3,380,527	0

Corfforaethol a Chanolog

CYLLIDEB GRYNO	CYLLIDEB ARIAN CYFYNGEDIG		AILDREFNU
GWASANAETH DISGRIFIAD	**2018/2019**	**2019/2020**	**2019/2020**
Cost Glir fesul Gwasanaeth			
	£	**£**	**£**
CRAIDD CORFFORAETHOL A DEMOCRATAIDD	1,750,675	1,750,675	3,908,023
COSTAU ANNOSBARTHEDIG	2,909,383	3,343,520	3,351,352
GWASANAETHAU CANOLOG I'R CYHOEDD	10,767,291	11,445,479	12,618,199
INCWM A GWARIANT GWEITHREDU ARALL	17,967,922	17,615,969	1,440,211
SYMUDIAD YN Y GRONFA BENSIWN	0	0	-3,924,870
CYFANSWM Y GYLLIDEB	**33,395,271**	**34,155,643**	**17,392,915**

Dadansoddiad yn ôl Gwariant ac Incwm

	£	**£**	**£**
GWARIANT			
COSTAU CYFLOGEION	232,271	206,616	222,904
COSTAU EIDDO	117,853	117,853	117,853
COSTAU CLUDIANT	11,452	11,452	11,452
CYFLENWADAU A GWASANAETHAU	4,255,724	4,884,475	1,024,733
TALIADAU TRYDYDD PARTI	14,772,428	14,900,681	14,900,681
TALIADAU TROSGLWYDDO	10,548,840	10,933,876	10,933,876
GWASANAETHAU CEFNOGI	0	0	3,424,786
CODI CYFALAF	9,024,660	8,669,629	9,537,246
CYFANSWM GWARIANT	**38,963,228**	**39,724,582**	**40,173,531**
INCWM			
GRANTIAU A CHYFRANIADAU ERAILL	-4,935,506	-4,936,488	-4,936,488
FFÏOEDD, TALIADAU AC INCWM ARALL	-362,000	-362,000	-362,000
CODI AR	-270,451	-270,451	-17,482,128
CYFANSWM INCWM	**-5,567,957**	**-5,568,939**	**-22,780,616**
CYFANSWM Y GYLLIDEB	**33,395,271**	**34,155,643**	**17,392,915**

Rheoli Risgiau Allweddol

Rhagdybiaeth ar gyfer y Gyllideb	**Risg**	**Rheoli**
Chwyddiant a chyfraddau llog	a) Nid oes darpariaeth chwyddiant cyffredinol wedi cael ei gynnwys yn y gyllideb. Mae'r CPI ar hyn o bryd yn 2.1% (Rhagfyr 2018). b) Bydd symudiadau cyfraddau llog yn y dyfodol yn effeithio ar lefel yr incwm buddsoddi.	Trwy drefniadau monitro a rheoli cyllideb y Cyngor.
Cyllid / Rhagolygon Ariannol	Y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd	Trwy drefniadau monitro a rheoli cyllideb y Cyngor.
Arbedion Gwasanaeth: a) Gwastraff Masnachol - Diwygio'r strategaeth codi tâl er mwyn sicrhau'r arbedion mwyaf posibl a chydraddoli costau rhwng cwsmeriaid mewnol (y Cyngor) a chwsmeriaid allanol.	Mae cynyddu'r tâl hwn yn gost cynyddol i wasanaethau mewnol eraill. Mae'n bosibl y bydd rhai cwsmeriaid mewnol yn dewis defnyddio gwasanaethau allanol yn hytrach.	Trwy drefniadau monitro a rheoli cyllideb y Cyngor.
b) Gosod goleuadau LED sy'n arbed ynni yn lampau stryd y Cyngor (ar hyn o bryd mae goleuadau LED mewn 2300 o'r 11,000 o lampau sydd gan y Cyngor) er mwyn arbed ynni a chostau cynnal a chadw yn y dyfodol. Mae costau ynni'n cynyddu a bydd y cynnig buddsoddi i arbed hwn yn helpu i dalu'r costau hynny.	Cost cyfalaf uchel i osod y goleuadau (benthyciad) y bydd rhaid ei ad-dalu. Er y bydd y cam gweithredu hwn yn lleihau'r defnydd o ynni, mae cost yr ynni hwnnw yn cynyddu'n sylweddol.	Trwy drefniadau monitro a rheoli cyllideb y Cyngor.
c) Ystyried trefniadau'r dyfodol ar gyfer Super loo yn Bellevue gyda'r Gymuned	Mater contract â darparwr y Superloo	Trwy drefniadau monitro a rheoli cyllideb y Cyngor.
ch) Swyddfeydd Cyhoeddus – Ystyried gofynion llety canol y dref yn y dyfodol a nodi gofod sydd dros ben.	Posibilrwydd o alw cynyddol am leoedd. Mae'n bosibl na fydd gweithio'n hyblyg yn lleihau'r galw am ofod ddigon ac mae'n bosibl na fydd cyllid cyfalaf ar gael.	Adolygu'r strategaeth gofod swyddfa. Cwblhau'r opsiynau dylunio a sicrhau amcangyfrifon costau. Nodi cyllid cyfalaf a pharhau i gyflwyno gweithio hyblyg.

d) Uned Cynyddu Incwm – cynhyrchu incwm ac adolygu lefelau gwasanaethau.	Mae opsiynau yn dal i gael eu llunio	Trwy drefniadau monitro a rheoli cyllideb y Cyngor. Os na ellir cyflawni'r arbedion llawn, yna bydd angen i'r adran nodi arbedion amgen.
dd) Cydweithio ag awdurdodau cyfagos o ran swyddi cyfreithiol.	- Mae'n bosibl y bydd y gost yn uwch am fod cyfraddau cyflog awdurdodau eraill yn uwch - Methu â dod i gytundeb o ran cydweithio o fewn amserlenni neu ddim o gwbl. - Galw'r adrannau cleientiaid yn golygu na ellir cydweithio.	
e) Dulliau Amgen o Ddarparu TGCh - adolygu opsiynau amgen i wella effeithlonrwydd a chynaladwyedd y gwasanaeth TGCh *Arbedion Gofal Cymdeithasol*	Mae adolygiadau cynnar yn awgrymu arbedion cyfyngedig a buddsoddiad sylweddol hefyd	Os na ellir cyflawni'r arbedion llawn, yna bydd angen i'r adran nodi arbedion amgen.
f) Cam 3 o'r Adolygiad o Gyfleoedd Dydd a Gwaith er mwyn pennu'r gofynion a'r dull gweithredu ar gyfer gwasanaethau dydd arbenigol yn y dyfodol.	Dyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau. Nid yw cost ac argaeledd gwasanaethau amgen yn hysbys eto. Y perygl o heriau a chwynion yn achosi oediad i unrhyw waith ail-fodelu.	Cwblhau adolygiad cynhwysfawr a gwerthusiad o'r opsiynau ac ymgynghoriad ymgysylltu'n llawn gyda'r bobl a effeithir. Profi'r farchnad i asesu'r diddordeb yn y farchnad a'r pharodrwydd i ddarparu gwasanaethau amgen.
ff) Parhau â'r adolygiad o Gefnogi Gwaith Prosiect er mwyn sicrhau y darperir lefelau gwasanaeth priodol ac y datblygir amrywiaeth o ddewisiadau cost effeithiol i greu mwy o allu i gyflawni mewn gofal cartref. Er enghraifft, cynyddu argaeledd a'r defnydd o Rannu Bywydau a Thaliadau Uniongyrchol.	Ni fydd lefel gwirioneddol y gostyngiad yn hysbys nes y bydd adolygiadau unigol wedi'u cwblhau â defnyddwyr gwasanaeth a nes y bydd argaeledd / cost y ddarpariaeth amgen yn hysbys. Risg uchel o gwynion gan ddefnyddwyr gwasanaeth. Capasiti timoedd i gwblhau adolygiadau a'r her o recriwtio gweithwyr cymdeithasol dros dro ychwanegol.	Cyfathrebu clir ac ymagwedd sy'n canolbwyntio ar unigolyn i ddarparu cymaint o ddewis ag sy'n bosibl. Penodi gweithiwr cymdeithasol ychwanegol dros dro i gynyddu capasiti i gynnal adolygiadau os oes angen. Yn ddibynnol ar ddeilliant adolygiadau unigol.

g) Adolygu ac ail-gomisiynu gwasanaeth cymorth Taliadau Uniongyrchol (TU) - gwaith ar y cyd â Sir y Fflint - cynnwys cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaeth – Gweithio i gynyddu argaeledd Cynorthwywyr Personol (CPau) - Datblygu cerdyn rhagdalu	Ni fydd y cynnydd yn nerbyniadau taliadau uniongyrchol nag argaeledd Cynorthwywyr Personol yn hysbys nes y bydd y gwaith wedi'i gwblhau	Gweithdrefnau, cymorth a gwybodaeth gwell ar gyfer derbynwyr Taliadau Uniongyrchol. Hyfforddiant a chymorth i staff gofal cymdeithasol i wella hyder yn hybu taliadau uniongyrchol. Datblygu dull cerdyn rhagdalu. Strategaeth glir a pholisïau ar waith. Datblygu dulliau newydd o recriwtio a chydlynu Cynorthwywyr Personol.
Ng) Parhau â'r gwaith sydd eisoes ar fynd i gefnogi pobl i ddod yn ôl i Wrecsam o leoliadau y tu allan i'r sir, adolygu lleoliadau sydd â chostau uchel a gwneud mwy o ddefnydd o fyw â chymorth fel dewis amgen.	Argaeledd darpariaeth amgen a pherygl o heriau a chwynion gan ddefnyddwyr gwasanaeth nad ydynt eisiau symud, a allai achosi oediad yn y broses o weithredu newidiadau. Capasiti timoedd gwaith cymdeithasol i gwblhau adolygiadau. Y perygl o ddiffyg cydweithio gan Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.	Rhaglen gynhwysol o adolygiadau'n mabwysiadu ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gan gyfathrebu'n glir â'r rheiny a effeithir. Nodi adnoddau amgen addas. Derbyn adolygiadau fel blaenoriaeth o'r TIMC. Dull partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gan gynnwys cynllun prosiect a rennir.
h) Gweithredu meini prawf cymhwyso Gofal Iechyd Parhaus yn effeithiol.	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ddim yn cydweithio â'r broses nac yn cydymffurfio â'r fframwaith Gofal Iechyd Parhaus, er enghraifft hyd yr amser am asesiad, proses y panel a ddim yn galluogi i Gofal Cymdeithasol i Oedolion fynd i ddadl ffurfiol. Perygl y bydd sefyllfa ariannol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn arwain at osgoi costau a throsglwyddiad anaddas pellach i Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Perygl o herio gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a defnyddwyr gwasanaeth.	Buddsoddiad ychwanegol mewn cefnogaeth gyfreithiol ar gyfer adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion er mwyn dilyn yr achosion a nodwyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae angen capasiti gwaith cymdeithasol ychwanegol hefyd. Cyfathrebu clir gyda defnyddwyr gwasanaeth a effeithir.
i) Model gweithredu sy'n adennill yr holl gostau	Perygl o gwynion gan ddefnyddwyr gwasanaeth a effeithir ac effaith	Cymorth hawliau lles i sicrhau fod pobl yn cael

	ariannol negyddol ar ddefnyddwyr gwasanaeth a effeithir.	mynediad at y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt. Cyfathrebu ac ymgynghori clir gyda phobl a effeithir
j) Nodi cyfleoedd i resymoli lefel y gwasanaethau a ddarperir: • Adroddiad i sefydlu pobl mewn lleoliadau â gwasanaethau ychwanegol • Adolygu lefelau'r gwasanaethau a ddarperir • Blaenoriaethu adolygiadau	Perygl o heriau a chwynion a allai achosi oediad yn y broses o weithredu unrhyw newidiadau. Capasiti timoedd gwaith cymdeithasol i gwblhau adolygiadau.	Cyfathrebu clir ac ymagwedd sy'n canolbwyntio ar unigolyn i ddarparu cymaint o ddewis ag sy'n bosibl. Penodi gweithiwr cymdeithasol ychwanegol dros dro i gynyddu capasiti i gynnal adolygiadau os oes angen. Yn ddibynnol ar ddeilliant adolygiadau unigol.
l) Gofal Cymdeithasol i Oedolion i gadw gwell rheolaeth o leoedd gwag mewn tai byw â chymorth - Adolygu lefel yr anghenion y mae byw â chymorth yn eu bodloni a chanfod gwasanaethau eraill ar gyfer pobl y mae eu hanghenion yn fwy na'r lefel honno fel y gellir dyrannu adnoddau yn deg i fodloni anghenion pobl.	Perygl o heriau. Cymryd bod llety amgen addas ar gael. Cymryd y gallwn ni leihau lleoedd gwag.	Cyfathrebu ac ymgynghori clir gydag unigolion a effeithir. Ymagwedd sy'n canolbwyntio ar unigolyn i ddarparu cymaint o ddewis ag sy'n bosibl. Penodi gweithiwr cymdeithasol dros dro ychwanegol.
ll) Cyllideb y Cynllun Gostyngiadau yn Nhreth y Cyngor yn unol â gwariant y flwyddyn bresennol	Gallai cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n elwa o'r Cynllun Gostyngiadau yn Nhreth y Cyngor (e.e. cyflogwr allweddol yn gadael yr ardal/cwmni'n dod i ben) olygu cynnydd yn y llwyth gwaith, a allai yn ei dro gynyddu gwariant a chostau o ganlyniad.	Trwy drefniadau monitro a rheoli cyllideb y Cyngor.
Pwysau ar y Gwasanaeth: Nid oes darpariaeth ddigonol wedi'i gwneud i ymdrin â'r newidiadau yn	Efallai y bydd galw am y gwasanaethau hyn yn parhau i fod yn fwy na lefel y cyllid sydd ar gael.	Ail-flaenoriaethu a gweithredu mesurau rheoli galw.

y galw am wasanaethau.		
Costau Ariannu Cyfalaf	Mae lefel y benthyca yn seiliedig ar lefel ac amseru ffynonellau eraill o gyllid, ee derbyniadau cyfalaf a grantiau. Gall y rhaid newid.	Trwy ystyriaeth y gweithgor aelodau/ swyddogion ac argymhelliad i'r Bwrdd.